| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn gan gyfeirio at ddamcaniaeth seicogymdeithasol Erikson o ddatblygiad, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut byddai colli ei gartref oherwydd tân yn y tŷ yn 6 mlwydd oed yn gallu dylanwadu ar ymddygiad Krystyn yn ddiweddarach mewn bywyd. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da gan gyfeirio at ddamcaniaeth seicogymdeithasol Erikson o ddatblygiad, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai colli ei gartref oherwydd tân yn y tŷ yn 6 mlwydd oed yn gallu dylanwadu ar ymddygiad Krystyn yn diweddarach mewn bywyd. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol gan gyfeirio at ddamcaniaeth seicogymdeithasol Erikson o ddatblygiad, gan ddangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai colli ei gartref oherwydd tân yn y tŷ yn 6 mlwydd oed yn gallu dylanwadu ar ymddygiad Krystyn yn ddiweddarach mewn bywyd. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | (ch) | *Mae Anya wedi rhoi gwybod i'w gweithiwr cymdeithasol ei bod yn pryderu am ei sefyllfa a'i bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi.*<br><br>*Archwiliwch sut byddai'n bosibl cymhwyso'r ddamcaniaeth ddyneiddiol er mwyn rhoi gofal a chymorth effeithiol i Anya.*<br><br>Rhowch hyd at 5 marc.<br><br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br>**Carl Rogers** a'r dull person-ganolog:<br><br>• mae angen i unigolion hunanwella a dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gydag Anya (ei grymuso) i'w galluogi i oresgyn ei phryderon ac i ymdopi â'i sefyllfa drwy ddangos empathi, cyfathiant ac ystyriaeth gadarnhaol ddiamod tuag ati.<br>• Gallai'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gyfeirio Anya at gwnsela ar ffurf therapi grŵp neu gyfleoedd gwirfoddoli, i'w helpu i wella yn dilyn trawma colli ei chartref a'i heiddo ac i weld y dyfodol mewn ffordd fwy cadarnhaol er mwyn symud ymlaen. Gall hyn roi'r ymdeimlad iddi nad yw ar ei phen ei hun ac y gall roi cefnogaeth i eraill mewn sefyllfa debyg yn ogystal â derbyn cefnogaeth ganddyn nhw. Gall hyn helpu i adfer ei hyder, ei hunan-barch a rhoi cyfeiriad iddi ganolbwyntio ar ei bywyd.<br>• Gallai gweithiwr cymdeithasol Anya ei helpu i fynd ati i ddod o hyd i gartref newydd. Byddai ailadeiladu bywyd ei theulu yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i Anya.<br><br>**Hierarchaeth anghenion Maslow:**<br>Bydd Anya yn diwallu ei hanghenion sylfaenol ond ni fydd yn cyflawni ei llawn botensial drwy golli'r hyn yr oedd wedi'i gyflawni gyda'i theulu. | 5 | | | 5 |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Drwy gyfeirio Anya at grwpiau hunangymorth a gwirfoddoli a'i galluogi i gymryd rhan weithredol wrth ddod o hyd i gartref newydd, bydd yn ennill mwy o reolaeth dros ei bywyd ac yn cael mwy o foddhad.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 2 | **3-5 marc**<br><br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn ystyried sut y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gymhwyso egwyddorion y ddamcaniaeth ddyneiddiol er mwyn rhoi gofal a chymorth effeithiol i Anya. |
| 1 | **1-2 farc**<br><br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth er mwyn ystyried sut y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gymhwyso egwyddorion y ddamcaniaeth ddyneiddiol er mwyn rhoi gofal a chymorth effeithiol i Anya. |
| | **0 marc**<br><br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | (a) | *Mae Carys wedi cael diagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (attention deficit hyperactivity disorder (ADHD)) yn ddiweddar.*<br><br>*Amlinellwch beth yw ystyr y term 'anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD).*<br><br>Rhowch hyd at **2 farc**.<br><br>Rhowch **1 marc** am amlinelliad sylfaenol.<br>Rhowch hyd at **2 farc** am amlinelliad clir.<br><br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br>Mae anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) yn gyflwr sy'n cynnwys symptomau fel:<br>• bod yn aflonydd<br>• cael trafferth yn canolbwyntio<br>• lefelau gweithgarwch corfforol uchel<br>• anhawster aros yn llonydd am gyfnodau hir o amser<br>• cyfnod canolbwyntio cyfyngedig.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 2 | 2 | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | (b) | *Disgrifiwch sut byddai cael diagnosis o ADHD yn gallu effeithio ar dwf a datblygiad Carys yn y tymor hir.*<br><br>Rhowch hyd at **6 marc**<br><br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br>Gall y diagnosis o ADHD effeithio ar dwf a datblygiad Carys yn y tymor hir gan y gall hi:<br>• gael y cymorth priodol i'w helpu hi i oresgyn yr heriau o fyw gyda'r diagnosis o ADHD a chyflawni ei photensial academaidd<br>• cyflawni'n wael yn academaidd gan fod ganddi gyfnod canolbwyntio byr, mae'n hawdd tynnu ei sylw, mae hi'n gwneud gwallau blêr, ac mae'n ymddangos nad yw hi'n gallu dilyn cyfarwyddiadau<br>• cael cyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig yn y dyfodol oherwydd ei chyflawniad academaidd gwael, sgiliau trefnu gwael, a'r ffaith nad yw hi'n gallu glynu at dasgau sy'n cymryd amser<br>• cael anhawster yn ffurfio perthnasoedd<br>• cael anhawster rheoli sefyllfaoedd cymdeithasol<br>• ei chael hi'n anodd darllen ciwiau cymdeithasol<br>• talu ychydig iawn o sylw i deimladau pobl eraill<br>• bod yn ynysig yn gymdeithasol sy'n golygu nad ydy hi'n rhyngweithio llawer â phobl eraill<br>• bod yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffordd sy'n cymryd risg gan nad oes ganddi lawer o synnwyr o ymddygiad peryglus / amhriodol neu ddim o gwbl<br>• bod yn fwy tueddol o ddioddef o straen a gorbryder ac yn fwy tebygol o ddioddef o iselder<br>• gall ddatblygu hunan-barch gwael.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 6 | 6 | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | (c) | *Rhowch **ddwy** ffordd byddai'n bosibl mynd i'r afael ag effaith tymor hir ei diagnosis o ADHD ar Carys.*<br><br>Rhowch hyd at **2 farc**<br><br>Rhowch **1 marc** am bob ymateb cywir<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br>• hyfforddiant sgiliau cymdeithasol<br>• datblygu gwydnwch Carys<br>• rhoi anogaeth a chysur i Carys<br>• gwella hunanhyder a hunan-barch Carys<br>• cefnogi Carys fel y gall hi feithrin y cryfder a'r gallu i fodloni ei hanghenion ei hun<br>• defnyddio adnoddau'r gymuned i ddarparu cefnogaeth i Carys<br>• darparu gweithgareddau ar gyfer Carys fel y bydd hi'n datblygu ei hannibyniaeth.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 2 | 2 | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marc | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | (a) | *Mae Hasheed yn 19 oed ac mae parlys yr ymennydd arno. Mae'n astudio cyfrifiadureg yn y brifysgol. Nid yw'n gallu symud llawer ac angen help arno gyda llawer o weithgareddau bywyd bob dydd. Ar hyn o bryd, mae Hasheed yn byw gartref ond mae'n awyddus i fyw mewn tŷ wedi'i rannu gyda'i ffrindiau yng nghanol y dref.*<br><br>*Esboniwch sut bydd mynd i'r brifysgol a byw mewn tŷ wedi'i rannu yn effeithio ar dwf a datblygiad Hasheed.*<br><br>Rhowch hyd at **8 marc**<br><br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br>Hasheed:<br>• efallai y bydd yn datblygu gwydnwch drwy feithrin cryfder a gallu wrth wneud ei benderfyniadau a'i ddewisiadau ei hun am ei fywyd bob dydd a'i astudiaethau<br>• bydd yn byw i ffwrdd o gartref y teulu ac yn cael ei rymuso i fodloni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun ac i ddatblygu ei sgiliau a'i allu i fyw mor annibynnol â phosibl yn y dyfodol<br>• bydd ei sgiliau datrys problemau'n datblygu wrth iddo astudio yn y brifysgol a byw mewn tŷ wedi'i rannu gyda'i ffrindiau ynghyd â'i gymhwysedd cymdeithasol a'i ymdeimlad o bwrpas er mwyn gallu ymdopi â heriau yn y dyfodol<br>• trwy fynd i'r brifysgol bydd yn ennill cymwysterau a fydd yn gwella ei gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol<br>• trwy gyflawni ei ddymuniad i fynd i'r brifysgol ac i fyw mewn tŷ wedi'i rannu gyda'i ffrindiau bydd Hasheed yn datblygu agwedd gadarnhaol, optimistaidd ac ymdeimlad o gyflawniad<br>• trwy ennill profiad o sefyllfaoedd gwahanol a allai godi wrth astudio yn y brifysgol a byw mewn tŷ wedi'i rannu bydd Hasheed yn dysgu sut i addasu'n dda i sefyllfaoedd heriol yn y dyfodol pan fyddan nhw'n codi | 8 | | 8 | |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • trwy gyfarfod â phobl wahanol yn y brifysgol ac wrth fyw mewn tŷ wedi'i rannu, bydd Hasheed yn gwella ei sgiliau cymdeithasol a bydd gwneud hynny yn ei helpu i ffurfio perthnasoedd llwyddiannus yn y dyfodol<br>• trwy lwyddo i ymdopi â gofynion ei astudiaethau a byw'n annibynnol gyda ffrindiau bydd Hasheed yn datblygu mwy o hunanhyder, mwy o hunan-barch, a hunangysyniad cadarnhaol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br><br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut bydd mynd i'r brifysgol a byw mewn tŷ wedi'i rannu gyda'i ffrindiau yn effeithio ar dwf a datblygiad Hasheed. |
| 3 | **5-6 marc**<br><br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut bydd mynd i'r brifysgol a byw mewn tŷ wedi'i rannu gyda'i ffrindiau yn effeithio ar dwf a datblygiad Hasheed. |
| 2 | **3-4 marc**<br><br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut bydd mynd i'r brifysgol a byw mewn tŷ wedi'i rannu gyda'i ffrindiau yn effeithio ar dwf a datblygiad Hasheed |
| 1 | **1-2 farc**<br><br>Esboniad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth a dealltwriaeth o sut bydd mynd i'r brifysgol a byw mewn tŷ wedi'i rannu gyda'i ffrindiau yn effeithio ar dwf a datblygiad Hasheed. |
| | **0 marc**<br><br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | (b) | *Disgrifiwch sut bydd datblygu hunanhyder a hunan-barch yn gallu cefnogi datblygiad tymor hir Hasheed.*<br><br>Rhowch hyd at **4 marc.**<br>Rhowch **1-2 farc** am ddisgrifiad manwl a sylfaenol.<br>Rhowch **3-4 marc** am ddisgrifiad clir.<br><br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br>Bydd datblygu hunanhyder a hunan-barch yn gallu cefnogi datblygiad tymor hir Hasheed drwy wneud y canlynol:<br><br>• rhoi'r cryfder a'r gallu iddo i fodloni ei anghenion ei hun ac i fyw mor annibynnol â phosibl<br>• gwella ei allu i fod yn gallu ymddiried yn ei syniadau ei hun<br>• gwella ei allu i fod yn gallu ehangu ar ei brofiadau a gwneud penderfyniadau pwysig am ei fywyd<br>• bod â'r hyder i ofyn am gymorth gyda thasgau bywyd bob dydd neu anawsterau symudedd gan adnoddau yn y gymuned pan fo angen gwneud hynny<br>• adeiladu ei wydnwch er mwyn gallu ymdopi â heriau yn y dyfodol<br>• lleihau ei orbryder ynghylch sut bydd yn ymdopi yn y dyfodol<br>• gwneud iddo deimlo fel aelod gwerthfawr o gymdeithas a gallu ymdopi ag unrhyw stigma y gallai ei brofi oherwydd bod parlys yr ymennydd arno<br>• y gallu i ymdopi â chyfnodau o bontio y bydd yn eu hwynebu.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 4 | 4 | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | (c) | *Amlinellwch beth yw ystyr y term 'gwydnwch'.*<br><br>Rhowch hyd at **2 farc**<br>Rhowch **1 marc** am amlinelliad sylfaenol.<br>Rhowch hyd at **2 farc** am amlinelliad clir.<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br>Gwydnwch yw:<br>• y gallu i 'ddod yn ôl atoch chi eich hun' (bounce back) ar ôl profiadau anffafriol.<br>• gallu ymdopi ac adfer ar ôl unrhyw anawsterau a sefyllfaoedd anodd.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 2 | 2 | | |
| | (ch) | *Aseswch rôl dulliau sy'n gallu cael eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.*<br><br>Rhowch hyd at **8 marc.**<br><br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br>Rôl dulliau sy'n gallu cael eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion:<br><br>Annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig ac adloniadol yn y gymuned leol a chynyddu rhwydweithiau cymdeithasol:<br>• a fydd yn galluogi unigolion i feithrin sgiliau newydd, adeiladu ar y galluoedd sydd ganddyn nhw yn barod a datblygu eu rhwydweithiau cefnogi. Yna mae hyn yn gwella hunanhyder a hunan-barch a bydd hynny'n hybu gwydnwch<br>• mae llwyddiant y dull hwn yn ddibynnol ar y ffaith bod yr unigolyn eisiau cymryd rhan ac ymgysylltu ag eraill ac yn teimlo ei fod yn gallu gwneud hynny<br>• ni fydd yr hyder gan bob unigolyn i ymgysylltu ag eraill nid yw'r un peth yn wir am bawb<br>• efallai y bydd angen mynd i'r afael â heriau er mwyn i unigolyn allu mynychu gweithgareddau e.e. daearyddol, ariannol<br>• efallai nad yw'r adnoddau ariannol ar gael yn y gymuned i ddarparu cyllid i ariannu gweithgareddau therapiwtig ac adloniadol. | 8 | | | 8 |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ymgysylltu ag unigolion er mwyn iddyn nhw fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant corfforol drwy wneud newidiadau ffordd o fyw:<br>• yn annog unigolion i beidio â chymryd rhan mewn ymddygiadau cymryd risg ac yn hybu grymuso i fabwysiadau dewisiadau ffordd o fyw iach<br>• efallai y bydd angen cefnogaeth eang ar lawer o unigolion e.e. gan weithwyr proffesiynol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, grwpiau cefnogi a'u teulu a ffrindiau ac mae'n bosibl na fydd hyn yn rhywbeth rhwydd i gael gafael arno<br>• mae'n bwysig bod yr unigolyn eisiau ac yn barod i newid ei ffordd o fyw er mwyn i'r dull hwn lwyddo.<br><br>Hybu dull cadarnhaol, sy'n datrys problemau a safbwynt optimistaidd:<br>• bydd hyn yn annog unigolion i fabwysiadu dull 'gallaf wneud hyn' ac adnabod y cryfderau personol sydd ganddyn nhw a datblygu strategaethau ymdopi<br>• bydd llwyddiant yn dibynnu ar ba mor barod yw unigolion i ymgysylltu<br>• bydd yn cefnogi'r unigolyn i fod ag agwedd gadarnhaol tuag at fywyd heb ystyried eu profiad yn y gorffennol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA3 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br><br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl i asesu rôl dulliau fyddai'n gallu cael eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch unigolion. |
| 3 | **5-6 marc**<br><br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth i asesu rôl dulliau fyddai'n gallu cael eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch unigolion. |
| 2 | **3-4 marc**<br><br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth i asesu rôl dulliau fyddai'n gallu cael eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch unigolion. |
| 1 | **1-2 farc**<br><br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth a dealltwriaeth ac asesiad o rôl dulliau fyddai'n gallu cael eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch unigolion. |
| | **0 marc**<br><br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | (a) | *Gwnaeth tad a thad-cu/taid Tomos farw'n gynnar o effeithiau dibyniaeth ar alcohol. Yn ddiweddar, mae Tomos wedi dechrau mynd allan bob nos i yfed alcohol gyda'i ffrindiau, ac yn aml mae Tomos wedi meddwi pan fydd yn mynd adref.*<br>*Archwiliwch, gan ddefnyddio'r ddadl natur / magwraeth, pam mae mwy o siawns gan Tomos o ddatblygu dibyniaeth ar alcohol.*<br>Dyfarnwch hyd at **8 marc**.<br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br>• Mae **natur** yn cyfeirio at ffactorau etifeddol neu enynnau unigolion sy'n diffinio eu hymddangosiad corfforol a hefyd eu personoliaeth ac ymddygiad.<br>• Byddai damcaniaethwyr sy'n dilyn y safbwynt hwn yn dadlau bod tueddiad yn bodoli yn Tomos yn barod i fynd i ddibynnu ar alcohol a bod hyn yn rhan o'i enynnau gan ei fod wedi'i etifeddu gan ei dad a'i daid / dad-cu.<br>• Mae **magwraeth** yn cyfeirio at amrywiol ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar ein nodweddion personoliaeth ac ymddygiad e.e. ein profiadau plentyndod, sut ac ymhle y cafodd y plentyn ei fagu, perthnasoedd cymdeithasol, a diwylliant.<br>• Ym marn damcaniaethwyr sy'n cymryd y safbwynt hwn y ffordd cafodd Tomos ei fagu a sut y dysgodd oddi wrth ei amgylchedd a'i fodelau rôl (tad a thaid/tad-cu) bod yfed alcohol yn dderbyniol.<br>Gan fod Tomos wedi'i fagu mewn amgylchedd lle mae yfed alcohol yn batrwm arferol o ymddygiad, mae'n fwy tebygol o efelychu'r ymddygiad ac yfed alcohol nag y byddai unigolyn sydd wedi'i fagu mewn amgylchedd lle nad yw yfed alcohol yn rhan o fywyd bob dydd.<br>Mae dull damcaniaethwyr datblygiadol gwahanol yn wahanol tuag at natur a magwraeth. Ym marn rhai damcaniaethwyr natur yn bennaf sy'n gyfrifol am lunio ymddygiad unigolyn, ond mae eraill o'r farn bod magwraeth unigolyn yn dylanwadu ar eu hymddygiad.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 8 | | | 8 |

© WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br><br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth fanwl am y ddadl natur/magwraeth i archwilio pam mae Tomos yn debygol o ddatblygu dibyniaeth ar alcohol. |
| **3** | **5-6 marc**<br><br>Ymateb da sy'n defnyddio gwybodaeth am y ddadl natur/magwraeth i archwilio pam mae Tomos yn debygol o ddatblygu dibyniaeth ar alcohol. |
| **2** | **3-4 marc**<br><br>Ymateb sylfaenol sy'n defnyddio rhywfaint o wybodaeth am y ddadl natur/magwraeth i archwilio pam mae Tomos yn debygol o ddatblygu dibyniaeth ar alcohol. |
| **1** | **1-2 farc**<br><br>Ymateb cyfyngedig sy'n defnyddio ychydig iawn o wybodaeth am y ddadl natur/magwraeth i archwilio pam mae Tomos yn debygol o ddatblygu dibyniaeth ar alcohol. |
| | **0 marc**<br><br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | (b) | *Disgrifiwch sut byddai dibyniaeth ar alcohol yn gallu effeithio ar ddatblygiad tymor hir Tomos mewn oedolaeth.*<br><br>Rhowch hyd at 4 marc<br>Rhowch **1-2 farc** am ddisgrifiad manwl a sylfaenol.<br>Rhowch **3-4 marc** am ddisgrifiad clir.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>Gall dibyniaeth ar alcohol:<br><br>• niweidio rhagolygon am swydd oherwydd bod alcohol yn effeithio ar y gallu i ganolbwyntio, barn, hwyliau a'r cof. Mae hyn yn gallu effeithio ar sut bydd unigolyn yn cyflawni yn y gwaith a'u presenoldeb yn y gwaith.<br>• cynyddu'r risg o ddatblygu clefyd yr iau e.e. cirrhosis<br>• cynyddu'r risg o ddatblygu dementia<br>• cynyddu pwysedd gwaed sy'n gallu arwain at ataliad ar y galon a strôc<br>• cynyddu'r risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol<br>• effeithio ar y gallu i ffurfio a chynnal perthnasoedd personol iach<br>• cynyddu'r risg o ddatblygu iselder<br>• cynyddu'r risg o hunanladdiad.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 4 | 4 | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | (c) | *Esboniwch sut byddai dulliau hybu ac amddiffyn gwydnwch yn gallu helpu unigolyn i fynd i'r afael â dibyniaeth ar alcohol.*<br><br>Rhowch hyd at 6 marc.<br><br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br>• bydd annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig yn eu cymuned leol drwy ymuno â grŵp hunangymorth yn rhoi cyngor a chefnogaeth iddyn nhw o ran sut i fynd i'r afael â'u dibyniaeth ar alcohol ac yn rhoi'r cyfle i ddod i gysylltiad â phobl eraill sydd mewn sefyllfa debyg<br>• annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau adloniadol yn eu cymuned leol, e.e. bydd gweithgareddau creadigol yn cefnogi unigolion i feithrin sgiliau newydd a chynyddu eu rhwydweithiau cymdeithasol. Bydd hynny wedyn yn effeithio'n gadarnhaol ar eu hunan-barch a'u gallu i ymdopi â'r heriau a allai eu hwynebu wrth ymdrin â dibyniaeth ar alcohol<br>• dylid annog unigolion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant corfforol eu hunain drwy gael eu cefnogi i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw. Gall hyn gynnwys derbyn therapi cwnsela, mynychu grwpiau cefnogi a derbyn cefnogaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol. Bydd hyn yn eu cefnogi i allu byw ffordd o fyw iach heb fod yn ddibynnol ar alcohol<br>• dylai unrhyw weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n cefnogi unigolyn â dibyniaeth ar alcohol hybu amgylchedd positif sy'n edrych ymlaen a hybu cryfderau'r unigolyn er mwyn dangos iddyn nhw ei fod yn bosibl iddyn nhw roi'r gorau i'w dibyniaeth ar alcohol er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 6 | | 6 | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut byddai dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch yn gallu helpu unigolyn i fynd i'r afael â dibyniaeth ar alcohol. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch yn gallu helpu unigolyn i fynd i'r afael â dibyniaeth ar alcohol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol nad yw'n dangos llawer o wybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch yn gallu helpu unigolyn i fynd i'r afael â dibyniaeth ar alcohol. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | | *Mae Anwen yn 82 mlwydd oed ac mae arthritis arni. Mae hi'n byw ar ei phen ei hun ac yn anaml mae hi'n gadael y tŷ. Mae cymydog yn dod i'w gweld bob dydd ac yn ei helpu gyda'r gwaith tŷ. Yn ddiweddar, mae'r cymydog wedi sylwi nad yw Anwen yn llwyddo i ymdopi, ei bod wedi colli pwysau a'i bod yn ymddangos yn isel. Dydy hi ddim yn sgwrsio llawer chwaith. Rhai dyddiau, nid yw Anwen yn ymolchi nac yn gwisgo ond mae'n aros yn ei dillad nos.* | 2 | 2 | | |
| | (a) (i) (ii) | *Nodwch **ddau** reswm posibl am y newid yn ymddygiad Anwen.*<br><br>Rhowch hyd at **2 farc**.<br>1 am bob ateb cywir.<br><br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br>• yn unig<br>• mewn poen oherwydd ei harthritis<br>• yn teimlo ei bod wedi'i hallgáu'n gymdeithasol<br>• yn ystod camau cynnar salwch megis dementia neu haint wrinol sy'n gwneud iddi deimlo'n sâl.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |
| | (b) | *Esboniwch ddylanwad ffactorau economaidd ar oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd.*<br>Rhowch hyd at **6 marc.**<br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Gall nifer o ffactorau economaidd effeithio ar ddatblygiad, iechyd, a llesiant oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r rhain yn bethau sy'n ymwneud ag arian ac yn cynnwys:<br>• incwm<br>• cynilion<br>• biliau<br>• dyled<br>• eiddo materol.<br><br>Mae ffactorau economaidd yn effeithio ar y ffordd mae anghenion corfforol unigolion yn cael eu diwallu a gallan nhw effeithio ar eu hanghenion deallusol, emosiynol a chymdeithasol hefyd. | 6 | | 6 | |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | (b) Parhad | Mae llawer o oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd wedi ymddeol ac yn dibynnu ar bensiwn am incwm. Bydd y swm maen nhw'n ei dderbyn yn amrywio.<br><br>Mae llawer o oedolion yn berchen ar eu cartrefi eu hunain a byddan nhw wedi cynilo i allu talu drostyn nhw eu hunain pan nad ydyn nhw'n gweithio rhagor.<br><br>Os oes gan oedolyn yn ddiweddarach mewn bywyd bensiwn da a chynilion (savings), byddan nhw'n gallu:<br><br>• dilyn ffordd o fyw iach ac yn gallu fforddio bwyta deiet iach<br>• talu biliau gwresogi yn ystod misoedd y gaeaf ac yn llai tebygol o ddatblygu afiechyd cysylltiedig â hynny<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau adloniadol e.e., mynd i'r gampfa<br>• mynd ar wyliau<br>• cymdeithasu â ffrindiau fel mynd allan<br>• am fwyd neu i'r theatr.<br>Os oes gan oedolyn yn ddiweddarach mewn bywyd bensiwn sylfaenol a chynilion bach iawn, bydd yn anodd iddyn nhw wneud y canlynol:<br><br>• dilyn ffordd o fyw iach, a bydd yn anodd iddyn nhw fforddio bwyta deiet iach sy'n gallu effeithio ar iechyd a gwneud yr unigolyn yn fwy tueddol o fynd yn sâl<br>• talu biliau gwresogi yn ystod y gaeaf. Gall amgylchedd oer arwain at afiechyd a hypothermia<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau adloniadol e.e., mynd i'r gampfa – gall hyn wneud unigolyn yn fwy tueddol o fagu pwysau a datblygu cyflyrau sy'n gysylltiedig â hynny e.e. diabetes<br>• gallu fforddio mynd ar wyliau<br>• gallu fforddio mynd allan a chymdeithasu â ffrindiau ac efallai y byddan nhw mynd yn ynysig ac yn unig.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall | | | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br><br>Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ddylanwad ffactorau economaidd ar oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd. |
| **2** | **3-4 marc**<br><br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddylanwad ffactorau economaidd ar oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd. |
| **1** | **1-2 farc**<br><br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddylanwad ffactorau economaidd ar oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd. |
| | **0 marc**<br><br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfan swm Marc | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | (c) | *Trafodwch sut byddai damcaniaeth Cummings a Henry yn esbonio ymddygiad Anwen.*<br><br>Rhowch hyd at **8 marc.**<br>Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae damcaniaeth Cummings a Henry yn awgrymu bod unigolion wrth iddyn nhw symud i oedolaeth ddiweddarach yn dechrau encilio o'r rolau oedd yn arfer bod yn bwysig iddyn nhw yn eu bywydau a hefyd yn dechrau datgysylltu o gymdeithas.<br><br>Gall y ddamcaniaeth hon esbonio ymddygiad Anwen oherwydd:<br><br>• wrth i unigolion fel Anwen heneiddio, mae encilio o gymdeithas yn rhywbeth sy'n normal ac yn ddymunol gan ei fod yn cymryd cyfrifoldebau a rolau sydd wedi mynd yn anodd oddi arnyn nhw.<br>• mae unigolion fel Anwen yn colli cysylltiadau cymdeithasol â'r sawl sydd o'u cwmpas gan eu bod yn disgwyl marwolaeth. Mae'r gallu sydd ganddyn nhw i ymgysylltu â phobl eraill yn dirywio dros amser ac efallai fod hyn yn esbonio pa mae hi wedi bod yn amharod i gael sgwrs â'i chymydog<br>• wrth i Anwen ddechrau datgysylltu, mae hi'n colli cysylltiad â normau cymdeithasol ymddygiad sy'n cyfeirio rhyngweithio. Mae colli cysylltiad â normau cymdeithasol yn atgyfnerthu ac yn cyflymu'r broses o ddatgysylltu. Mae hi'n byw ar ei phen ei hun ac nid yw'n mynd allan ac nid oes ganddi lawer o gysylltiad â phobl eraill ar wahân i'w chymydog<br>• Mae Anwen yn barod i ddatgysylltu gan ei bod yn ymwybodol o'r amser byr sydd ar ôl yn ei bywyd, gan ei bod yn 82, ac nid yw hi'n dymuno cyflawni ei rolau cymdeithasol presennol erbyn hyn<br>• Mae'r ffordd mae Anwen yn datgysylltu o fywyd bob dydd yn rhan arferol o'r broses heneiddio; mae datgysylltu'n digwydd ar draws pob diwylliant.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 8 | | | 8 |

© WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA3 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br><br>Trafodaeth ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut byddai damcaniaeth Cumming a Henry yn esbonio ymddygiad Anwen. |
| 3 | **5-6 marc**<br><br>Trafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai damcaniaeth Cumming a Henry yn esbonio ymddygiad Anwen. |
| 2 | **3-4 marc**<br><br>Trafodaeth sylfaenol yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai damcaniaeth Cumming a Henry yn esbonio ymddygiad Anwen. |
| 1 | **1-2 farc**<br><br>Trafodaeth gyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai damcaniaeth Cumming a Henry yn esbonio ymddygiad Anwen. |
| | **0 marc**<br><br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | | *Mae Sioned yn byw mewn fflat sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n wael mewn ardal troseddu uchel (high crime area).* | 8 | | | |
| | (a) | *Esboniwch sut mae'r ffactorau canlynol yn gallu cael effaith **negyddol** ar dwf a datblygiad Sioned.*<br>*(i) Troseddu*<br>*(ii) Tai o ansawdd gwael*<br><br>Rhowch hyd at **4 marc** am bob ffactor.<br>Rhowch **3-4 marc** am esboniad da.<br>Rhowch **1-2 farc** am esboniad sylfaenol.<br><br>Gall atebion gynnwys y canlynol:<br><br>**Troseddu**<br>Mae perthynas rhwng byw mewn ardaloedd sydd wedi'u heffeithio gan droseddu a'r tueddiad i ddatblygu problemau iechyd meddwl y gall Sioned eu datblygu:<br>• iselder<br>• lefelau cynyddol o orbryder<br>• trallod seicolegol.<br><br>Efallai y bydd ofn mynd allan ar ei phen ei hun ar Sioned ac y bydd hi'n cael ei hynysu'n gymdeithasol ac yn teimlo'n unig.<br><br>Efallai y bydd Sioned yn cael ei themtio i ymwneud â gweithgaredd troseddol ei hun fel y bydd hi'n 'ffitio i mewn' â phobl eraill sy'n byw wrth ymyl.<br><br>**Tai o ansawdd gwael**<br>Gall tai o ansawdd gwael fod yn damp a heb gael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r amgylchedd hwn yn gysylltiedig â datblygiad amrediad eang o gyflyrau iechyd:<br>• heintiau resbiradol<br>• asthma<br>• gwenwyn plwm<br>• anafiadau<br>• cyflyrau iechyd meddwl.<br><br>Byddai Sioned yn fwy agored i ddatblygu afiechyd os yw'n byw mewn tŷ o ansawdd gwael. | | | 4<br>4 | |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Efallai bydd ganddi lai o le i fyw a'r amodau sydd ganddi i fyw ynddyn nhw'n rhai gorlawn ac mae hynny'n gallu hybu lledaeniad clefydau heintus.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | (b) | *Mae rhai pobl yn yr ardal yn profi iselder.*<br><br>*Disgrifiwch yr effeithiau tymor hir o fyw gydag iselder mewn oedolaeth.*<br><br>Gall atebion gynnwys y canlynol:<br>Mae unigolion sy'n byw gydag iselder tymor hir mewn oedolaeth:<br>• gyda risg uwch o ddatblygu clefyd y galon,<br>• yn fwy tebygol o fagu neu golli pwysau yn anghyffredin<br>• yn fwy tebygol o ddatblygu system imiwnedd wedi'i gwanhau<br>• gyda risg uwch o brofi amhariad ar eu patrymau cwsg yn arwain at flinder cronig a sensitifedd, a gall hynny arwain at ganolbwyntio gwael yn yr ysgol, cyflawniad academaidd gwael neu anallu i ymdopi â gweithio<br>• gyda risg uwch o ddatblygu dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol neu ddangos ymddygiad difeddwl/camdriniol<br>• â siawns uwch o hunanladdiad os nad yw eu hiselder yn cael ei drin<br>• yn debygol o fyw ansawdd bywyd gwael os nad yw'n cael ei drin<br>• yn llai tebygol o ffurfio perthnasoedd sy'n ystyrlon ac yn para ac o fynd yn fwy ynysig.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 6 | 6 | | |

| AA1 |
|---|
| **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o effeithiau tymor hir byw gydag iselder yn ystod oedolaeth. |
| **3-4 marc**<br>Disgrifiad da yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau tymor hir byw gydag iselder yn ystod oedolaeth. |
| **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau tymor hir byw gydag iselder yn ystod oedolaeth. |
| **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | (c) | *Mae meithrin gwydnwch yn un ffordd o fynd i'r afael ag effaith tymor hir iselder.*<br><br>*Trafodwch ddulliau eraill mae unigolion yn gallu eu defnyddio i fynd i'r afael ag effaith tymor hir iselder.*<br><br>Rhowch hyd at **5 marc.**<br><br>Gall atebion gynnwys y canlynol:<br>• modelu, hyfforddiant sgiliau cymdeithasol a gweithgareddau sy'n gallu helpu unigolyn i sicrhau gwell annibyniaeth (dysgu cymdeithasol). Gellir cyflawni hyn drwy integreiddio mwy â'u cymuned a grwpiau cefnogi gan alluogi unigolyn i ddysgu strategaethau ymdopi<br>• mae'n bosibl y bydd cwnsela, a grwpiau cefnogi yn cynnig cysur, anogaeth a dilysu ac yn archwilio cysylltiadau ag ymlyniad. Gallai hyn gynnig esboniad am ei iselder i'r unigolyn. Gall ei addysgu nad yw ar ei ben ei hun a chynnig ffyrdd o reoli ei iselder.<br>• gall cefnogaeth gan adnoddau yn y gymuned a chymryd rhan mewn gweithgareddau helpu i gynyddu hunanhyder a hunan-barch, a gwella hunangysyniad yr unigolyn.<br>• galluogi unigolyn i fodloni ei anghenion ei hun drwy gynyddu'r cryfder a'r gallu sydd ganddyn nhw. Bydd hyn yn dilyn wrth i'w hunanhyder a hunan-barch gynyddu ac wrth iddyn nhw ei chael yn haws rheoli eu hiselder ac ymdopi â gofynion bywyd bob dydd.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 5 | | | 5 |

© WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **3** | **5 marc**<br><br>Ymateb da iawn sy'n cynnwys trafodaeth fanwl o ddulliau eraill heblaw meithrin gwydnwch y gall unigolion eu defnyddio i fynd i'r afael ag effaith tymor hir iselder. |
| **2** | **3-4 marc**<br><br>Ymateb da sy'n cynnwys trafodaeth o ddulliau eraill heblaw meithrin gwydnwch y gall unigolion eu defnyddio i fynd i'r afael ag effaith tymor hir iselder. |
| **1** | **1-2 farc**<br><br>Ymateb sylfaenol sy'n cynnwys rhywfaint o ymgais i drafod dulliau eraill heblaw meithrin gwydnwch y gall unigolion eu defnyddio i fynd i'r afael ag effaith tymor hir iselder. |
| | **0 marc**<br><br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Mapio Amcanion Asesu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cynnwys | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
| 1. (a) | **2.1** | **2** | | | |
| (b) (i)<br>(ii) | **2.1** | **1**<br>**1** | | | |
| (c) | **2.2** | | **6** | | |
| (ch) | **2.2** | | | **5** | **15** |
| 2. (a) | **2.1** | **2** | | | |
| (b) | **2.1** | **6** | | | |
| (c) (i)<br>(ii) | | **1**<br>**1** | | | **10** |
| 3. (a) | **2.1** | | **8** | | |
| (b) | **2.1** | **4** | | | |
| (c) | | **2** | | | |
| (ch) | **2.3** | | | **8** | **22** |
| 4. (a) | **2.1** | | | **8** | |
| (b) | **2.1** | **4** | | | |
| (c) | **2.2** | | **6** | | **18** |
| 5. (a) (i)<br>(ii) | **2.1** | **1**<br>**1** | | | |
| (b) | **2.1** | | **6** | | |
| (c) | **2.2** | | | **8** | **16** |
| 6. (a) (i)<br>(ii) | **2.1** | | **4**<br>**4** | | |
| (b) | **2.1** | **6** | | | |
| (c) | **2.1** | | | **5** | **19** |
| **CYFANSWM** | | **32** | **34** | **34** | **100 marc** |
| | | **32%** | **34%** | **34%** | |

© WJEC CBAC Cyf.